| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **5 Tachwedd 2019** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ysgol Llanaelhaearn** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir am ganiatâd Cabinet y Cyngor i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, ar y 1af o Fedi 2020.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Y rheswm dros ofyn am ganiatâd i ymgynghori ar sail y cynnig a ffefrir yw'r angen i gyfarch sefyllfa fregus yr ysgol. Mae cwymp sylweddol mewn niferoedd wedi bod yn ddiweddar sydd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgybl ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2019, a dengys rhagamcanion y bydd cwymp pellach gyda 5 o ddisgyblion ar y gofrestr erbyn 2021. Mae'r 8 disgybl hyn yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth - un dosbarth o 3 ac un dosbarth o 5 disgybl.

**3. CEFNDIR**

3.1. <u>Datblygiadau diweddar</u>

3.1.1. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae niferoedd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda dim ond 8 disgybl ar y gofrestr.

3.1.2. Yng nghyfarfod y Cabinet ar y 4 Mehefin 2019, '*penderfynwyd rhoi caniatâd i'r Adran Addysg i gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol*'.

3.1.3. Cynhaliwyd tri cyfarfod rhwng Mehefin a Hydref 2019. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, bu i'r Corff Llywodraethu a rhan-ddeiliaid perthnasol eraill gyflwyno syniadau fel opsiynau posibl i ddatrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Yn dilyn asesiad manwl o'r opsiynau hyn, cynhaliwyd ail gyfarfod lleol gan amlinellu cryfderau, gwendidau, cyfleon a bygythiadau'r opsiynau, gyda mewnbwn y corff llywodraethu a'r rhan-ddeiliaid. Defnyddiwyd y wybodaeth hwn i bwyso a mesur yr opsiynau ar y sail os oeddent yn diwallu'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Cynhaliwyd trydydd cyfarfod lleol i gyflwyno yr opsiynau hynny.


3.2. <u>Cyd-destun Strategol</u>

3.2.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion '*Addysg Addas i Bwrpas*' a fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn benodol drwy resymoli ystod oedran dosbarthiadau a rhoi tegwch i benaethiaid i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd.

3.2.2. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. O fewn y strategaeth hon nodir ffactorau i gefnogi'r broses o adolygu dalgylchoedd neu sefyllfaoedd penodol. Gweler manylion y ffactorau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad (Rhan 5 – Gwerthuso Opsiynau).

## 4. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL LLANAELHAEARN

4.1. Mae niferoedd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Gweler yn y graff isod fod cwymp sylweddol wedi bod mewn niferoedd ers 2013. Er bod gan yr ysgol gapasiti o 47 (Derbyn i Flwyddyn 6) a 6 o lefydd meithrin, y nifer uchaf sydd wedi bod ar gofrestr yr ysgol ers 1980 yw 42 o ddisgyblion yn 2012. Ers hynny, mae'r niferoedd wedi lleihau yn flynyddol gyda 8 disgybl yn mynychu'r ysgol ym mis Medi 2019.




4.2. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:

i. Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2019, 8 o ddisgyblion oedd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
ii. Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gydag un dosbarth o 3 ac un dosbarth o 5 disgybl.
iii. Mae rhagolygon yn dangos 7 o ddisgyblion yn 2020, 5 o ddisgyblion yn 2021, a 5 o ddisgyblion yn 2022.
iv. Nifer o lefydd gweigion – 83% o lefydd gweigion (39 Derbyn i Flwyddyn 6, a 6 o lefydd gweigion Meithrin).
v. Mae Ysgol Llanaelhaearn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 yn £43,774. Nid oes ond digon o gyllid i gyflogi Pennaeth a chymhorthydd i'r dyfodol.
vi. Cost fesul disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn y flwyddyn ariannol 2019/20 yw £12,671 (seiliedig ar niferoedd Medi 2018, sef 11 disgybl), o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £3,884.

vii. Dengys data 2018 fod 39 o blant yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn gyda 28 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill.

**5. GWERTHUSO OPSIYNAU**

5.1. Yn ystod y cyfarfodydd lleol, cynigwyd a thrafodwyd nifer o fodelau posibl, yn benodol:

i. Gwneud dim (y 'Status quo')
ii. Newid strwythur staffio
iii. Sefydlu uned Arsylwi Blynyddoedd Cynnar yn yr ysgol
iv. Ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill
v. Yr awdurdod i roi gwarant fod yr ysgol am fod ar agor am 5 mlynedd er mwyn rhoi cyfle i godi niferoedd
vi. Sefydlu clwb gofal plant ar safle'r ysgol
vii. Caffi cymunedol yn yr ysgol
viii. Cau yr ysgol, a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae gwerthusiad o'r opsiynau hyn i'w gweld yn Atodiad A.

5.2. Yn unol â strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, yn benodol:

i. Maint dosbarthiadau
ii. Niferoedd disgyblion
iii. Arweinyddiaeth a Staffio
iv. Y Gymuned
v. Adnoddau Ariannol
vi. Yr Iaith Gymraeg
vii. Ffactorau Daearyddol

5.3. Bu i'r Corff Llywodraethu a budd-ddeiliaid perthnasol eraill gynnig mewnbwn a sylwadau wrth werthuso'r opsiynau.

5.4. Dylid nodi bod yr opsiwn a ddisgrifir uchod yn 5.1 (v) wedi ei gynnig gan y Corff Llywodraethol yn sgîl ei bryder y bu i gyfarfod gyda Swyddogion Addysg, rhieni a Llywodraethwyr yr Ysgol yn ystod Gorffennaf 2016 arwain at ostyngiad sylweddol mewn niferoedd disgyblion. Honnwyd fod sylwadau gan Swyddogion Addysg wedi arwain at rieni benderfynu symud eu plant i ysgolion gyfagos.

Gwahoddwyd y Swyddogion Addysg i'r cyfarfod gan y Corff Llywodraethol yn sgil y ffaith nad oedd gan yr Ysgol bennaeth mewn lle ar gyfer y mis Medi canlynol. Roedd hyn yn cynrychioli dwyster y sefyllfa ar y pryd gan na ellid agor ysgol heb Bennaeth. Yn unol a'r drefn arferol, yr oedd yr Adran wedi hysbysebu swydd y Pennaeth ddwy waith yn allanol, a dwy waith yn fewnol. Er hyn, ni chafwyd ymgeiswyr addas. Dyma oedd cyd-destun y cyfarfod. Ar ddiwedd y cyfarfod, bu i nifer o rieni ofyn i'r Swyddogion Addysg beth fyddai'r drefn o drosglwyddo plant i ysgol arall. Bu i'r Swyddogion eu hysbysu yn unol a'r drefn arferol.

Mae'r niferoedd wedi gostwng yn gyson ers 2012. Bu gostyngiad yn niferoedd o 42 yn 2012 i 26 y Gorffennaf 2016 a bu gostyngiad pellach i 20 erbyn Medi 2016. Ni ystyrir felly y gellir perthnasu'r cwymp mewn niferoedd o ddisgyblion i sylwadau honedig Swyddogion Addysg ar ddiwedd un cyfarfod. Yn hytrach, yr oedd y cyfarfod yn amlygu sefyllfa argyfyngus yr Ysgol bryd hynny ac o ganlyniad y gallasai sawl rhiant fod wedi dewis symud eu plant gan nad oedd Pennaeth mewn lle ar gyfer Medi 2016. Bu'r Awdurdod yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ers 2016 i geisio cynnal a chefnogi'r Ysgol.

Mae'n bwysig hefyd nodi na all yr awdurdod ymrwymo i beidio ac ymdrin a'r ysgol am 5 mlynedd. Byddai hyn yn cynrychioli llyffethair anghyfreithlon ar ei hawliau statudol.

5.5. Yn dilyn y gwerthusiad daeth dau o'r opsiynau i'r amlwg fel y rhai a fyddai fwyaf hyfyw a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol, sef:

i. Ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos
ii. Cau ysgol Llanaelhaearn gyda'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ac yn ymhelaethu ar sefyllfa fregus yr ysgol a'r angen i gymryd camau pellach i'w gyfarch. Tra bod yr opsiwn o gynnal y sefyllfa gyfredol wedi ei ystyried nid ydym o'r farn y byddai'n mynd i'r afael â'r problemau sydd angen sylw.

5.6. Roedd nifer o'r opsiynau eraill yn gwneud defnydd gwell o'r adeilad, megis sefydlu Uned Arsylwi Blynyddoedd Cynnar, Agor Caffi neu Glwb Gofal Plant. Er hynny, nid oedd yr opsiynau yn cael eu hystyried fel rhai oedd yn datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu wrth werthuso yn erbyn y ffactorau a nodwyd uchod yn 5.2 (gweler asesiad llawn yn Atodiad A).

**ASESIADAU EFFAITH – RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG**

5.7. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 wedi cyflwyno trefniadau newydd, arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. Golyga hyn fod rhaid dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau.

5.8. Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n rhaid hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas a chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod, o'r opsiynau y credir y byddent yn mynd i'r afael â sefyllfa'r ysgol. Fel y nodwyd uchod, yr opsiynau hyn oedd Ffederaleiddio neu gau yr ysgol.

5.9. <u>Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg (Atodiad B)</u>

5.9.1. Dengys yr Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg na fyddai ffederaleiddio yn debygol o gael effaith ar sefyllfa bresennol yr ysgol yn y dyfodol agos gan fod trefniant anffurfiol o gydweithio yn bodoli eisoes gydag ysgol arall, ac yn debygol o barhau o dan drefniant model ffederal.

5.9.2. Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, byddai Ysgol Bro Plenydd yn cynnig addysg o ansawdd a safon yn gyfatebol os nad gwell nag Ysgol Llanaelhaearn.

5.9.3. Cafodd Ysgol Llanaelhaearn ei harolygu ddiwethaf ym mis Ebrill 2015, ble daethpwyd i'r casgliad mai digonol oedd perfformiad presennol yr ysgol ynghyd a'r rhagolygon gwella. Cydnabyddir fod yr ysgol wedi bod ar daith gwella ers cyfnod yr arolygiad, o dan arweinyddiaeth sawl pennaeth gwahanol.

5.9.4. Yn 2019, gosodwyd yr ysgol yn y categori melyn o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella gan Lywodraeth Cymru.

5.9.5. Bu i Ysgol Bro Plenydd gael ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2015, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn dda.

5.9.6. Yn 2019, gosodwyd Ysgol Bro Plenydd y categori gwyrdd gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella.

5.9.7. Cynigir yr ysgol amgen addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, ac yn galluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Gweler gwybodaeth perthnasol yn Atodiad B.

5.9.8. Oherwydd cymhareb isel disgybl i blentyn sydd ar hyn o bryd yn Ysgol Llanaelhaearn, mae'r plant yn gwneud cynnydd da.

5.9.9. Byddai gwireddu'r cynnig hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd a llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol.

5.9.10. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod.

5.10. <u>Asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio</u>

5.10.1. Dengys yr Asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio yr ysgol. Maent eisoes yn ymweld ac Ysgol Chwilog yn wythnosol gan ddefnyddio bws mini Ysgol Llanaelhaearn, a rhagwelir y byddai hyn yn parhau o dan drefniant o ffederaleiddio yn ffurfiol, boed hynny dwy ffederaleiddio gydag Ysgol Chwilog, neu ysgol leol arall.

5.10.2. Byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Gan fod yr ysgol amgen fwy na 2 filltir o'u cartrefi, bydd ganddynt hawl i gludiant am ddim i'r ysgol amgen. Mae Ysgol Bro Plenydd wedi ei lleoli 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn, a rhagwelir fod y daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws, sydd o fewn y pellter rhesymol y disgwylir i blant cynradd ei deithio i'w hysgol yn unol â'r '*Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd*' o 30 munud bob ffordd.

5.10.3. Bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

5.10.4. Mae asesiad o'r effaith debygol ar drefniadau teithio i'w weld yn Atodiad B.

5.11. <u>Asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned</u>

5.11.1. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned, ble nodir na fyddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, fel y sefyllfa bresennol.

5.11.2. Byddai gwireddu'r cynnig i gau ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr, yn cael peth effaith negyddol ar gymuned Llanaelhaearn. Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol, y mae'r ysgol yn gwneud defnydd o'r ganolfan gymunedol leol, sef Canolfan y Babell. Er hyn, yn 2018 roedd 7 o ddisgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Llanaelhaearn eisoes yn mynychu Ysgol Bro Plenydd, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.

5.11.3. I liniaru'r effaith hyn, byddem yn annog cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle'n briodol.

5.12. <u>Opsiynau eraill</u>

5.12.1. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried mewn sefyllfa o'r fath, a chafodd yr enghreifftiau hyn eu hystyried yn ychwanegol i'r opsiynau yn adran 5 o'r adroddiad hwn, gyda sylwadau arnynt isod:

i. <u>Clystyru, cydweithio ag ysgolion eraill</u>: mae Ysgol Llanaelhaearn yn cydweithio eisoes gydag Ysgol Chwilog drwy drefniant y Pennaeth.

ii. <u>Defnyddio’r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol</u>: dengys yr asesiad o’r effaith debygol ar y gymuned fod amryw o gyfleusterau cymunedol ym mhentref Llanaelhaearn eisoes. Yn ogystal, nid yw'r adeilad yn addas i wneud hyn heb ei addasu.

iii. <u>Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal</u>: dengys nad oes galw am ofod yn yr ardal gyda lleoliadau eraill gyda gofod ar gael ar osod.

iv. <u>Ystyried sefydlu ysgolion ar fwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau</u>: Ysgol Llanaelhaearn yn unig sydd dan ystyriaeth yn yr adolygiad hwn, oherwydd y sefyllfa argyfyngus o niferoedd isel yn berthnasol i Ysgol Llanaelhaearn.

**OPSIYNAU RHESYMOL I’W YSTYRIED AR GYFER YR YSGOL**

5.13. <u>Ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos.</u>

5.13.1. Mae’r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol gan gryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd gydweithio.

5.13.2. O dan drefniant model ffederal ffurfiol, byddai Ysgol Llanaelhaearn yn cydweithio gydag ysgol neu ysgolion lleol o dan un pennaeth (neu fwy) ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai un corff llywodraethu newydd yn cael ei greu ar gyfer y ffederasiwn. Byddai hunaniaeth yr ysgolion dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn medru cael eu cadw neu eu newid i adlewyrchu’r ffederasiwn newydd. Mae’r model o ffederaleiddio yn galluogi’r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigrwydd.

5.13.3. Fodd bynnag, nid oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i’r prif heriau y mae’r ysgol yn ei wynebu. Byddai niferoedd yr ysgol yn parhau i fod yn isel, a maint y dosbarthiadau hefyd yn parhau i fod yn fychan. Gweler mwy o fanylion yn Atodiadau A ac Ch.

5.13.4. Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag amrywiaeth o ysgolion cyfagos yn benodol Yr Eifl, Bro Plenydd, Llangybi, Pentreuchaf a Chwilog.

5.13.5. Gan fod niferoedd Ysgol Llanaelhaearn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgybl ar y gofrestr, dengys yr asesiad ffederaleiddio nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Llanaelhaearn.

5.13.6. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn ffurfiol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

5.13.7 Ystyrir felly nad hwn yw’r opsiwn gorau ar gyfer y sefyllfa yma.

5.14. <u>Cau Ysgol Llanaelhaearn a’r plant i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.</u>

5.14.1. Mae’r model yma yn golygu cau Ysgol Llanaelhaearn a symud y disgyblion i’w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr. Manylir y cynnig yma ymhellach yn yr adroddiad.

5.14.2. Ystyriwyd mai Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr a fyddai’n cael ei henwi fel yr ‘ysgol amgen’ am sawl rheswm, yn benodol:

i. Mae’r ysgol sydd agosaf yn ddaearyddol at ysgol a chanol pentref Llanaelhaearn, sef Ysgol Yr Eifl, Trefor, yn llawn. Ni fyddai’r ysgol yma yn gallu ymdopi gyda 8 o ddisgyblion ychwanegol.

ii. Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr yw’r ysgol sydd ddaearyddol agosaf wedi hynny.

iii. Mae’r ffordd i gyrraedd Ysgol Bro Plenydd o bentref Llanaelhaearn yn hwylus gyda chyswllt cludiant cyhoeddus ac ni fyddai’r daith i gyrraedd ysgolion eraill cyfagos mor rhwydd o bentref

Llanaelhaearn. Mae Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn, ac yn fwy na 2 filltir o holl gartrefi dalgylch Llanaelhaearn.

iv. Gall Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr ymdopi gyda niferoedd ychwanegol o ddisgyblion, mae 30 o lefydd gweigion gan gynnwys meithrin yno ar hyn o bryd (*cyfrifiad Medi 2019*).

5.14.3. Yn dilyn hyn, cynigir ymestyn dalgylch ysgol Bro Plenydd i gynnwys dalgylch Ysgol Llanaelhaearn ar gyfer y dyfodol.

## 6. YR OPSIWN A FFEFRIR

O'r modelau ystyriwyd, yr opsiwn gaiff ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad pellach yw'r model o gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd yn Y Ffôr. Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ffafrio am y rhesymau canlynol:

6.1. Maint dosbarthiadau

6.1.1. Dim ond dau ddosbarth sydd yn Ysgol Llanaelhaearn. Un dosbarth gyda 3 disgybl ac un dosbarth gyda 5 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Bro Plenydd yw 23. Byddai trosglwyddo i Bro Plenydd yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau maint mwy addas a gyda chyfoedion.

6.2. Niferoedd disgyblion

6.2.1. Mae'r rhagamcanion diweddaraf, yn seiliedig ar gyfrifiad Medi 2019, yn dangos y bydd niferoedd Ysgol Llanaelhaearn yn gostwng i 5 disgybl erbyn Medi 2022, fel y dengys yn y tabl isod:

**Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Llanaelhaearn**

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2019 | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 2 | 1 | **8** |
| Amcangyfrif Medi 2020 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 2 | **7** |
| Amcangyfrif Medi 2021 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | **5** |
| Amcangyfrif Medi 2022 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | **5** |

6.2.2. Mae gan Ysgol Llanaelhaearn 39 (83%) o lefydd gweigion (Derbyn – Blwyddyn 6). Mae 23 (25%) o lefydd gweigion yn Ysgol Bro Plenydd. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin y ddwy ysgol, mae gan Ysgol Llanaelhaearn 45 (85%) o lefydd gweigion ac Ysgol Bro Plenydd 30 (29%) o lefydd gweigion.

6.2.3. Mae 68 o ddisgyblion (Derbyn-Blwyddyn 6), a 6 o ddisgyblion Meithrin yn mynychu Ysgol Bro Plenydd yn bresennol. Dengys rhagamcanion Ysgol Bro Plenydd y bydd 65 o ddisgyblion (Derbyn-blwyddyn 6) a 9 o ddisgyblion blwyddyn Meithrin yn yr ysgol ym Medi 2022. Mae niferoedd yn Ysgol Bro Plenydd yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

6.2.4. Gyda 23 o lefydd gweigion (a 7 o lefydd gwag ar gyfer y Meithrin), mae gan Ysgol Bro Plenydd ddigon o gapasiti ar gyfer niferoedd presennol y ddwy ysgol, ac am y dair mlynedd nesaf.

6.2.5. Ar hyn o bryd, gyda capasiti o 492, mae 170 (35%) o lefydd gweigion yn yr ardal (ysgolion Llanaelhaearn, yr Eifl, Bro Plenydd, Llangybi, Pentreuchaf a Chwilog). Byddai gweithredu y cynnig hwn yn lleihau'r nifer o lefydd gweigion yr ardal i 117 (27%).

6.3. Arweinyddiaeth a staffio

6.3.1. Mae Ysgol Llanaelhaearn yn cyflogi un athro cynradd llawn amser a chymhorthydd llawn amser. Hyd at bedwar diwrnod yr wythnos, mae'r athro cynradd yn arddel rôl pennaeth safle ac yn derbyn y lwfans rheolaethol.

6.3.2. Dros y bedair blynedd diwethaf, mae Ysgol Llanaelhaearn wedi bod a thri pennaeth gwahanol, gyda dau o'r tri pennaeth yn arwain ysgolion eraill, ac un ohonynt yn bennaeth a oedd eisoes wedi ymddeol. Cyn hyn, yr oedd gan yr ysgol bennaeth llawn amser.

6.3.3. Yn 2017/18, roedd Ysgol Llanaelhaearn yn rhannu pennaeth gydag Ysgol Garndolbenmaen. O Fedi 2018 ymlaen, mae'r pennaeth wedi cytuno i fod yn bennaeth ar Ysgol Chwilog yn ogystal ac felly mae Ysgol Llanaelhaearn yn rhannu pennaeth gyda dwy ysgol gynradd arall – yr unig enghraifft o bennaeth ar dair ysgol yng Ngwynedd. Mae'r pennaeth yn treulio un diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

6.3.4. Yn ogystal â phennaeth, mae gan Ysgol Bro Plenydd ddau athro a phedwar cymhorthydd.

6.4. Adnoddau Ariannol

6.4.1 Dyrennir cyfanswm o £431,000 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2019/2020. Mae amrediad cost y disgybl rhwng yr ysgolion; £12,671 yn Ysgol Llanaelhaearn a £4,118 yn ysgol Bro Plenydd. Cyfartaledd Sirol cost y disgybl y cyfnod hwn yw £3,884.

| Ysgol | Dyraniad 2019/20 | Cost y disgybl (seiliedig ar niferoedd Medi 2018) | Cyfraniad polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio |
|---|---|---|---|
| Llanaelhaearn | £139,000 | £12,671 (11 disgybl) | £43,744 |
| Bro Plenydd | £292,000 | £4,118 (66 disgybl) | - |

6.4.2. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi derbyn £43,744 o gyfraniad y polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio eleni. Mae hyn yn gwarantu pennaeth a chymhorthydd (mewn ysgolion gyda llai na 15 o blant). Mae strwythur staffio presennol yr ysgol, sef athro, cymhorthydd a rhannu pennaeth, yn golygu y byddai Ysgol Llanaelhaearn heb unrhyw newidiadau yn wynebu diffyg cyllidebol yn seiliedig ar y niferoedd presennol a'r rhagamcanion i'r dyfodol.

6.4.3. Rhagwelir y byddai arbedion o £100,518 y flwyddyn drwy gau ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion presennol i gael eu haddysgu yn ysgol Bro Plenydd, y Ffôr. Amcangyfrifir y byddai costau cludiant ar gyfer yr 8 disgybl oddeutu £11,400 ac felly byddai'r arbedion net arfaethedig wedi ystyried y costau cludiant oddeutu £89,118. Pe byddai angen darparu cludiant ar gyfer plant y dalgylch i gyd yn y dyfodol yna byddai'r costau cludiant yn cynyddu i oddeutu £25,000 a'r arbedion net arfaethedig yn debygol o fod yn £75,518 y flwyddyn.

6.4.4. Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

6.5. Amgylchedd Dysgu

6.5.1. Mae gan Ysgol Bro Plenydd gapasiti ar gyfer y disgyblion presennol, ac mae'r adeilad o ansawdd gwell na Ysgol Llanaelhaearn. Nodir asesiad cyflwr diweddaraf yr Adran Eiddo fod categori cyflwr ysgol Llanaelhaearn yn 'B' tra bod ysgol Bro Plenydd yn 'A'.

6.5.2. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg.

6.6. Y Gymuned:

6.6.1. Nodir Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 fod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd astudiaeth effaith cymunedol ar yr opsiynau rhesymol i ddatrys prif heriau yr ysgol.

6.6.2. Gweler asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned yn atodiad B.

6.6.3. Noda'r asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned y byddai peth effaith negyddol o ran cau'r ysgol. Ond, nodir fod 7 o ddisgyblion sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd ar hyn o bryd, ac felly, mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach.

6.6.4. Mae'r asesiad cymunedol yn nodi fod yr ysgol yn ymwneud â chymuned Llanaelhaearn, er nad oes defnydd o adeilad yr ysgol gan y gymuned ar hyn o bryd. Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn.

6.7. Yr Iaith Gymraeg

6.7.1. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn atodiad B.

6.7.2. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol (atodiad B) na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg drwy wireddu'r cynnig, yn bennaf gan:

i. Fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, fel y mae'r disgyblion yn ei dderbyn yn Ysgol Llanaelhaearn.
ii. Mae ystadegau cyfrifiad 2011 ar gyfer ward Llanaelhaearn yn dangos fod 74% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gyda 80% o boblogaeth Abererch yn siarad Cymraeg.
iii. Dengys ystadegau PLASC Ionawr 2019 fod 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 83% o ddisgyblion Bro Plenydd.

6.8. Ffactorau Daearyddol

6.8.1. Drwy gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, ni ragwelir byddai angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, sef mwy na 30 munud un ffordd, yn unol â'r '*Strategaeth Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*.

6.8.2. Rhagwelir na fyddai teithio i'r ysgol yn ychwanegu mwy na 5 munud un ffordd i amser teithio presennol y dysgwyr.

6.8.3. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

## 7. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

7.1. Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion

7.1.1. Yn sgil yr opsiwn a ffefrir byddai dalgylch Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys dalgylch yr ysgol yn bresennol, a hefyd dalgylch presennol Ysgol Llanaelhaearn.

**Map 1: Sefyllfa bresennol dalgylchoedd yr ardal**




**Map 2: Dalgylch Ysgol Bro Plenydd os fydd newid**




7.2. <u>Cludiant</u>

7.2.1. Fel nodir uchod yn 6.8, petai'r opsiwn a ffefrir yn cael ei weithredu byddai disgyblion sydd yn byw o fewn ddalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn derbyn cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd.

7.3. <u>Ystyriaethau staffio</u>

7.3.1. Petai cymeradwyaeth i'r cynnig, byddai goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau. Ymgynghorir yn benodol a staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd a Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd a'r polisi

hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

## 8. YSTYRIAETHAU ERAILL

8.1. Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

8.1.1. Bydd unrhyw broses yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru *(Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018)*.

8.2. Cydraddoldeb

8.2.1. Mae polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal.

8.2.2. Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

8.2.3. Bu i'r asesiad cydraddoldeb nodi pwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

8.2.4. Gweler yr Asesiad Cydraddoldeb yn Atodiad B.

8.3. Trafodaethau diweddar ynglŷn â'r angen am dai ar gyfer pobl leol yn ardal Llanaelhaearn.

8.3.1. Tynnwyd ein sylw at y ffaith fod prynhawn agored yn cael ei gynnal ar y 23ain Hydref 2019 yng nghanolfan y Babell i geisio adnabod os oes angen am dai marchnad agored, tai fforddiadwy a/neu dai cymdeithasol ar gyfer pobl leol yn ardal Llanaelhaearn. Trefnwyd gan yr Hwylusydd Tai Gwledig.

8.3.2. Yn ddarostyngedig i dderbyn caniatâd cynllunio ffurfiol, mae posibilrwydd o adeiladu hyd at 15 o dai ar safle arfaethedig (manylion yn Atodiad C).

8.3.3. Pe byddai 15 o dai yn cael eu hadeiladu yn y dyfodol, yn unol â fformiwla canllawiau cynllunio (*Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol*), gall hyn arwain at oddeutu 6 (*15x0.4*) o blant oed cynradd i'r stad arfaethedig, ac felly gellir amcangyfrif y byddai oddeutu 6 o blant a fyddai'n mynychu Ysgol Llanaelhaearn, neu ysgol leol arall, yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni pe byddai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

8.3.4. Pe byddai 6 o blant ychwanegol yn mynychu Ysgol Llanaelhaearn, byddai'r niferoedd yn cynyddu i 14, (neu 13 o Fedi 2020) a byddai'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa argyfyngus o ganlyniad i niferoedd isel.

8.4. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

8.4.1. Cynhaliwyd asesiad Llesiant ar yr opsiynau gan ystyried amcanion lles Cyngor Gwynedd.

8.4.2. Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

8.4.3. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, ac hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn

cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleon o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

8.4.4. Gweler Asesiad Llesiant yn Atodiad B.

## 9. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

9.1. Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r argymhelliad yn yr adroddiad hwn bydd rhaid cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rhagwelir y byddai'r cyfnod hwnnw yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf.

9.2. Bydd adroddiad pellach wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn adrodd ar ganlyniadau'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet gloriannu'r ymgynghoriad ac, yn amodol ar farn y Cabinet bryd hynny, penderfynir a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio. Os cyhoeddir Rhybudd Statudol, bydd cyfnod o fis i unrhyw un gynnig gwrthwynebiad i'r cynnig sef y 'Cyfnod Gwrthwynebu'. Yn dilyn y cyfnod hwnnw cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymatebion iddynt.

## 10. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol.

Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae rhesymau amlwg (gan gynnwys rhai ariannol) yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn.

Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 4.2 a 6.4 o'r adroddiad ac yn rhan 6 o Atodiad A unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol). Byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd (cau Ysgol Llanaelhaearn, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr) yn arbed £100,518 llai anghenion cludiant ychwanegol (amcangyfrifir ar hyn o bryd oddeutu £25,000), sy'n golygu arbedion net blynyddol o tua £75,518 (fel nodir yng nghymal 6.4.3 o'r adroddiad).

**Yr Aelod Lleol:**

Gofid a siom i mi ydi'r sefyllfa sydd yn bodoli yn Ysgol Llanaelhaearn, Ysgol sydd yn darparu addysg o safon uchel iawn i blant y dalgylch.

'Rwyf yn derbyn fod nifer disgyblion sydd ar y gofrestr wedi gostwng i lefel bryderus iawn, ac felly bod y gôst o ddarparu'r addysg yn uwch na chyfartaledd y Sir.

Fel sydd eisoes wedi ei ddweud, mae nifer o ffactorau sydd wedi arwain at y sefyllfa bresennol, ac fel a ddwedwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr wrth y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn y Pentref , ynghyd ag mewn llythyr i'r Adran Addysg ar y 15fed o Fedi, un or prif bethau sydd wedi arwain at gwymp o 60% mewn nifer y plant dros y 3 blynedd diwethaf yw sylwadau a wnaed mewn cyfarfod yn yr Ysgol yn ystod Mis Gorffennaf 2016 gan swyddogion yr Adran Addysg ynglŷn a dyfodol yr Ysgol pryd hynny. Yn dilyn y sylwadau hynny bu i nifer o'r rhieni symud eu plant o'r ysgol. Yn wir rhaid dweud fod nifer o'r rhai oedd ar fwrdd llywodraethol yr Ysgol wedi symud ei plant i ysgolion eraill yn dilyn y sylwadau a wnaed gan y swyddogion yn y cyfarfod hynny. Heb os nac oni bai dyma oedd y prif 'gatalyst' am ddirywiad

yn y nifer plant dros y cyfnod diwethaf. Credaf fod y llythyr gan y Cadeirydd yn eich ffeil. Fe welwch ei fod wedi gwneud cais i gael gwarant i'r Ysgol am gyfnod o 5 mlynedd er mwyn ceisio adfer y rhifau a chodi hyder rhieni i ddanfon eu plant i'r ysgol. Cais a gafodd ei wrthod.

Teimlai y llywodraethwyr ei bod yn bwysig fod Aelodau y Cabinet yn cael y ffeithiau ar cefndir yn gyflawn cyn penderfynu dyfodol yr ysgol felly maent wedi gofyn i mi gynnwys y sylwadau yn fy ddarpariad i chi.

Fel yr wyf eisoes wedi datgan, mae Ysgol Llanaelhaearn yn Ysgol fechan, Hapus, ac yn rhoi addysg arbennig o dda i'r plant, mae adroddiadau diweddar yn cadarnhau hyn.

Bydd yn ddiwrnod trist iawn os bydd yr Ysgol yn cau, a chredaf y byddai yn cael effaith hir dymor ar yr ymgais i adfywio a Datblygu y gymuned, denu teuluoedd o'r Newydd (gyda plant) i fyw yn y pentref. Fel y gwyddoch o'r adroddiadau ynghlwm i'r cais yma, mae cynllun i geisio cael datblygiad o 15 o dai cymdeithasol Newydd yn y Pentref. Mae'n debygol y byddai cau yr ysgol yn dylanwadu ar benderfyniad rhai o ddarpar deuluoedd.

Hyderaf y bydd yr ymgynghoriad statudol yn un teg a thrylwyr a gobeithiaf y bydd rhyw fodd i achub Ysgol fechan Llanaelhaearn.

**Atodiadau:**

**Atodiad A:** Cymhariaeth o nodweddion y modelau yn erbyn ffactorau y strategaeth.

**Atodiad B:** Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

**Atodiad C:** Llythyr a thaflen am ddiwrnod agored parthed datblygiad tai posibl

**Atodiad Ch:** Pecyn cefndirol gan gynnwys cyflwyniadau a chofnodion y cyfarfodydd lleol.